*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Panel Gweithredol yr Awdurdod Tân ac Achub** |
| Dyddiad | **23 Hydref 2017** |
| Swyddog Arweiniol | **Dirprwy Brif Swyddog Tân Dawn Docx** |
| Swyddog Cyswllt | **Shân Morris** |
| Pwnc | **Ymateb i Ymgynghoriad Cyhoeddus yr Awdurdod 2017** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi crynodeb o brif themâu'r ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriad cyhoeddus Awdurdod Tân Gogledd Cymru 2017 ynglŷn â'r camau y dylai'r Awdurdod eu cymryd tuag at gyflawni ei amcanion gwella a llesiant.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Daeth wyth ar hugain o ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus yr Awdurdod rhwng Mai a Gorffennaf 2017. Roedd y themâu a welwyd yn yr ymatebion yn ymwneud â'r canlynol:

- gwasanaethau rheng flaen a chraidd, ac ymateb i ddigwyddiadau mawr;
- diogelwch cymunedol (tanau damweiniol mewn cartrefi); ac
- ariannu gwasanaethau tân ac achub yn yr ardal.

**ARGYMHELLIAD**

3 Bod yr Aelodau'n nodi prif themâu'r ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng Mai a Gorffennaf 2017.

**CEFNDIR**

4 Yn ôl y gyfraith, rhaid i'r Awdurdod ymdrechu i wella ei wasanaethau yn y tymor byr ac ystyried lles cenedlaethau o bobl yn yr ardal yn y dyfodol. Rhaid iddo ddatblygu amcanion llesiant iddo'i hun, i gyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru, a chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.

5 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod adolygu ei amcanion llesiant fel rhan o'i drefniadau adrodd. Wrth wneud hynny, rhaid iddo asesu a yw ei amcanion llesiant yn briodol ai peidio, i'r graddau:

- y byddan nhw'n cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant;
- bod yr Awdurdod yn ystyried ei fod yn cymryd pob cam rhesymol i'w cyflawni; a'u
- bod yn parhau'n gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

6 Wrth gynllunio gwelliannau, mae'r Awdurdod wedi cynnal ymgynghoriadau ers nifer o flynyddoedd, pryd mae'r cyhoedd a phobl eraill sydd â diddordeb yn cael eu hannog i roi eu barn ar wasanaethau tân ac achub yn yr ardal.

7 Mewn ambell flwyddyn, mae'r Awdurdod yn gofyn am gynigion penodol y mae eisoes wedi'u llunio. Mewn ambell flwyddyn arall, mae'n gwahodd barn fwy gyffredinol am ddatblygiad gwasanaethau tân ac achub i'r dyfodol. Mae disgwyl i'r Awdurdod, pan fydd yn penderfynu ynghylch ei gynlluniau, roi ystyriaeth i'r sylwadau sydd wedi dod i law.

8 Ym mis Mawrth 2017, penderfynodd yr Awdurdod ymgynghori'n gyhoeddus ynghylch y camau y gallai eu cymryd tuag at gyflawni ei nodau llesiant tymor hir. Mae effeithiau'r etholiad ym mis Mai 2017 a sefydlu'r Awdurdod newydd wedi golygu y byddai'r gwaith o osod gyllideb ar gyfer 2018/19 yn seiliedig o raid ar y costau hysbys a disgwyliedig ar gyfer y flwyddyn honno, ond byddai'r ymgynghoriad a gynhaliwyd rhwng Mai a Gorffennaf 2017 yn cyfrannu at ddatblygu cynlluniau'r Awdurdod newydd ar gyfer y dyfodol.

**GWYBODAETH**

9 Cafodd dogfen ymgynghorol yr Awdurdod, o'r enw "*Datblygu'r Awdurdod Tân ac Achub at y Dyfodol*", ei lansio ar ei wefan ddiwedd mis Mai 2017. Roedd y ddogfen yn rhoi trosolwg byr o broses gynllunio'r Awdurdod ac yn gwahodd sylwadau ac awgrymiadau i'r Awdurdod eu hystyried wrth benderfynu ynghylch y camau y dylai eu cymryd dros y blynyddoedd i ddod.

10 Cafodd y ddau amcan tymor hir a fabwysiadodd yr Awdurdod ar ddechrau 2017 eu hailadrodd yn y ddogfen ymgynghorol, sef:

- cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac aros yn ddiogel os ydynt yn digwydd; a
- hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, yn ymatebol ac wedi'i hintegreiddio'n well fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn gallu parhau i fod ar gael pan a phryd mae eu hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg.

11 Yn yr ymgynghoriad, gofynnwyd tri chwestiwn a oedd yn 'agored' yn fwriadol, a gwahoddwyd pobl i gyflwyno eu hymatebion erbyn diwedd mis Gorffennaf 2017. Dyma'r cwestiynau a ofynnwyd:

**Cwest. 1. Beth fyddai'n helpu'r Awdurdod Tân ac Achub i: a) gael gostyngiad pellach yn nifer y tanau damweiniol mewn tai annedd; a/neu b) cynorthwyo cenedlaethau'r dyfodol i aros yn ddiogel os byddant yn wynebu tân damweiniol yn eu cartref?**

**Cwest. 2. Wrth benderfynu sut i ariannu'r gwasanaeth tân ac achub, beth ddylai'r Awdurdod newydd ei ystyried wrth benderfynu ar y cydbwysedd rhwng**
**a) cynyddu cyfraniadau ariannol y cynghorau sir, b) defnyddio'r cronfeydd wrth gefn, ac c) lleihau rhai o'i wasanaethau?**

**Cwest. 3. Beth yw eich barn ar y gwasanaeth tân ac achub yn cymryd rolau newydd yn y gymuned nawr bod nifer y tanau yn yr ardal wedi gostwng?**

**<u>Dulliau ymgynghori</u>**

12 Roedd datganiad i'r wasg yn darparu dolen i'r ddogfen ymgynghorol ar wefan yr Awdurdod, a defnyddiwyd negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw at lansio'r ymgynghoriad a chynnal ymwybyddiaeth. Arweiniodd hyn at nifer o ymholiadau gan y cyfryngau a rhoddwyd hwb i'r diddordeb gan sylwadau ar-lein.

13 Ymddangosodd erthyglau mewn nifer o gyhoeddiadau mewnol er mwyn rhoi gwybod i'r staff am yr ymgynghoriad, a rhoddwyd gwybod ar e-bost i 228 o randdeiliaid, tanysgrifwyr i gylchgrawn yr Awdurdod, sef 'Er Gwybodaeth', a phob Cyngor Tref a Chymuned yng Ngogledd Cymru.

**<u>Ymateb</u>**

14 Fe wnaeth dau ddeg chwech o bobl/sefydliadau gyflwyno 28 o ymatebion ysgrifenedig drwy lythyr (7) ac yn electronig (21). Daeth ymatebion gan y canlynol:

- cynghorau tref a chymuned (10) mewn pum sir
- aelodau unigol o'r cyhoedd (7)
- cynghorau sir (3)
- Aelodau Cynulliad (2)
- cynghorydd sir unigol (1)
- Undeb yr FBU (1)
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru (1)
- Cymdeithas Geffylau Prydain, Gogledd Cymru (1)

15 Daeth dau ddeg tri o ymatebion (82%) yn Saesneg a daeth pump (18%) yn Gymraeg.

16 Nid oedd llawer o'r ymatebion yn cyfeirio'n uniongyrchol ar y tri chwestiwn a ofynnwyd er roeddent yn ymdrin yn fras â'r un meysydd. Manteisiodd rhai hefyd ar gyfle i edrych eto ar benderfyniadau a wnaeth yr Awdurdod yn y gorffennol.

17 Roedd nifer o'r ymatebion wedi'u cyfyngu gan ddealltwriaeth gyfyngedig o'r hyn mae'r Awdurdod yn ei wneud eisoes a chostau perthynol agweddau penodol ar y Gwasanaeth. Gallai hyn fod yn rhywbeth i'w ystyried mewn ymgynghoriadau cyhoeddus yn y dyfodol.

18 O ran gwella gwaith ataliol y Gwasanaeth **(Cwestiwn 1)**, roedd nifer o'r awgrymiadau'n ymwneud â phethau y mae'r Gwasanaeth yn eu gwneud yn barod e.e. dadansoddi gwybodaeth, targedu grwpiau penodol o bobl a theilwra cyngor, defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhannu gwybodaeth am bobl, a gweithredu drwy bartneriaethau, ond fe wnaeth rhai ohonynt awgrymu syniadau newydd, megis datblygu 'apiau' a phartneriaethau cymunedol drwy gynghorau cymuned, sef pethau y gallai'r Awdurdod eu hystyried yn y dyfodol.

19 O ran y sefyllfa ariannol **(Cwestiwn 2)**, roedd nifer o'r ymatebion yn cydnabod fforddiadwyedd fel mater ond nid oeddent eisiau lleihau gwasanaethau rheng flaen. Cyfeiriwyd yn benodol hefyd at: adnoddau sydd yn Wrecsam ar hyn o bryd ac un arall a oedd yn arfer bod yn Llandudno; gwasanaethau achub anifeiliaid mawr; ac ymateb i larymau tân awtomatig.

20 Awgrymodd rhai y gallai gwasanaethau rheng flaen gael eu diogelu efallai drwy'r canlynol: ailddyrannu arian o swyddogaethau eraill; codi arian o ffynonellau eraill gan gynnwys codi tâl am rai gwasanaethau, ail-godi tâl ar sefydliadau eraill am wasanaethau sy'n cael eu darparu ar eu rhan a sicrhau grantiau; neu gyflwyno "*ffyrdd arloesol eraill o wneud arbedion effeithlonrwydd*". Fodd bynnag, nid oedd yr un o'r atebion arfaethedig yn cyfrifo'n uniongyrchol beth yw maint y trosglwyddiad a fyddai'n angenrheidiol nac ychwaith ddichonoldeb cael digon o arian mewn ffordd gynaliadwy drwy'r dulliau hyn er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg a ragwelir.

21 Cafwyd ymateb cymysg i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn, heb fawr o gydnabyddiaeth i'r goblygiadau hirdymor o wneud hynny. Roedd rhai yn gweld gwerth mewn gwario rhywfaint, ond dim y cwbl, o gronfeydd ariannol yr Awdurdod, ond roedd rhai eraill yn aneglur ynglŷn â faint y gellid ei ystyried yn lefel isaf ddiogel i'w chadw.

22 Cafwyd mwy o gefnogaeth i gynyddu cyfraniadau'r cynghorau sir ymysg yr ymatebion a ddaeth gan unigolion a chynghorau cymuned nag ymysg yr ymatebion gan y cynghorau sir eu hunain. Cyfeiriwyd hefyd at gyllid canolog awdurdodau lleol (y 'setliad llywodraeth leol') a sut roedd hynny'n gysylltiedig â chyllid tân ac achub.

23 Cafwyd cefnogaeth bwyllog i'r Gwasanaeth yn ymgymryd â rolau newydd yn y gymuned **(Cwestiwn 3)**, gyda chefnogaeth gyffredinol i gydweithio ond peth dealltwriaeth y gallai gwneud mwy beryglu gallu'r Gwasanaeth i ymateb i ddigwyddiad mawr neu i ddarparu ei wasanaethau 'craidd' neu 'draddodiadol'. Hefyd, roedd dymuniad am weld rolau newydd yn ychwanegu gwerth, nid dim ond ailddyrannu (neu ddyblygu) costau o un rhan o'r sector cyhoeddus i ran arall, ac i'r Awdurdod egluro pa rolau y byddai'n fodlon eu hystyried. Roedd y rhan fwyaf o'r awgrymiadau am rolau newydd y gallai'r Gwasanaeth eu cyflawni mewn meysydd sydd eisoes yn gyfarwydd i'r Awdurdod, ond roedd ambell syniad newydd hefyd (e.e. defnyddio'r mynediad sydd gan y Gwasanaeth at bobl ifanc i ddarparu mathau eraill o gyngor) y gallai'r Awdurdod eu hystyried.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Dylid ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad wrth gynllunio'r camau y bydd yr Awdurdod yn eu cymryd er mwyn cyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. |
| Cyllideb | Holodd yr ymgynghoriad yn benodol am gyllid oherwydd bydd cynlluniau'r dyfodol yn gysylltiedig â chyllidebau. |
| Cyfreithiol | Mae ymgynghori â'r cyhoedd a chynnwys pobl yn rhan o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. |
| Staffio | Nid oedd dim goblygiadau i staffio o ganlyniad i gynnal yr ymgynghoriad, ond gallai penderfyniadau ynglŷn â chynllunio ar gyfer y dyfodol gael goblygiadau i lefelau staffio. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd cynllunio yn yr Awdurdod yn y dyfodol yn cael ei asesu er mwyn canfod yr effaith gysylltiedig ar bobl o ran eu nodweddion gwarchodedig a'r Gymraeg. |
| Risgiau | Bod yr Awdurdod yn methu â chydymffurfio â'i oblygiadau cyfreithiol a/neu wneud trefniadau ymarferol a fforddiadwy ar gyfer darparu gwasanaethau tân ac achub yn ei ardal. |